# Asesiadau athrawon o bynciau di-graidd y Cwricwlwm Cenedlaethol: Cymru 2017


**9 Awst 2017**
**SFR 89/2017**

## Pwyntiau allweddol ar gyfer 2017

### Cyfnod Allweddol 3

Ers 2016 gwelwyd cynnydd yng nghanran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig ym mhob pwnc. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yng Nghymraeg Ail Iaith (2.0 pwynt canran).


**Canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel disgwyliedig, Cyfnod Allweddol 3, 2016-2017**




### Cyfnod Allweddol 2

Yn 2017, roedd y canran o ddisgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (Lefel 4) neu uwch yn 80.9 y cant yng Nghymraeg Ail Iaith, cynnydd o 3.0 y cant o'i gymharu â 2016.

**Canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel disgwyliedig yng Nghymraeg Ail Iaith, Cyfnod Allweddol 2, 2011-2017**




## Am y datganiad hwn

Mae'r Datganiad Ystadegol Cyntaf hwn yn rhoi gwybodaeth am asesiadau athrawon o bynciau di-graidd y Cwricwlwm Cenedlaethol yn 2016, ar lefel Cymru ac ar lefel awdurdod lleol (ALl). Cymraeg Ail Iaith yw'r unig bwnc di-graidd yr ydym yn casglu data ar gyfer yng Nghyfnod Allweddol 2.

Gwelwch Adran 1.1 o'r Nodiadau i gael gwybodaeth am y rhaglen ddilysu allanol ar gyfer asesiadau gan athrawon, a allai effeithio ar ganlyniadau o 2016 ymlaen.

## Yn y datganiad hwn

Cyfnod Allweddol 3 2
Cyfnod Allweddol 2 5
Nodiadau 6

Ystadegydd: Stephen Hughes ~ 0300 025 5060 ~ ystadegau.ysgolion@llyw.cymru

Ymholiadau oddi wrth y wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau cyhoeddus: 0300 025 5050 Twitter: @ystadegaucymru


# Adran 1 – Cyfnod Allweddol 3

## Tabl 1: Canlyniadau asesiadau athrawon o bynciau di-graidd yng Nghyfnod Allweddol 3, 2012-2017

Canran y disgyblion a gyrhaeddodd o leiaf Lefel 5 (y lefel ddisgwyliedig) mewn asesiadau athrawon

| | Celf a Dylunio | Dylunio a Technoleg | Daearyddiaeth | Hanes | TGCh | Ieithoedd Tramor Modern | Cerddoriaeth | Addysg Gorfforol | Cymraeg Ail Iaith |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Bechgyn:** | | | | | | | | | |
| 2013 | 82.6 | 83.4 | 79.9 | 79.7 | 85.7 | 71.0 | 82.6 | 85.4 | 65.0 |
| 2014 | 86.5 | 87.1 | 83.9 | 83.3 | 88.3 | 76.2 | 87.1 | 88.8 | 70.6 |
| 2015 | 88.1 | 89.0 | 86.6 | 86.3 | 90.6 | 79.0 | 88.8 | 90.7 | 74.9 |
| 2016 | 90.1 | 90.5 | 88.3 | 88.2 | 91.4 | 81.0 | 90.4 | 91.8 | 75.7 |
| **2017** | **90.4** | **90.7** | **89.0** | **89.0** | **91.9** | **81.9** | **90.8** | **92.5** | **78.1** |
| **Merched:** | | | | | | | | | |
| 2013 | 94.8 | 93.0 | 89.5 | 90.1 | 92.6 | 85.5 | 92.0 | 86.9 | 82.2 |
| 2014 | 95.8 | 94.7 | 91.8 | 91.9 | 94.2 | 88.5 | 93.8 | 90.0 | 85.5 |
| 2015 | 96.1 | 95.5 | 93.4 | 93.1 | 94.8 | 89.6 | 94.6 | 92.2 | 88.0 |
| 2016 | 96.7 | 96.1 | 94.0 | 94.3 | 95.4 | 90.5 | 95.7 | 93.5 | 88.5 |
| **2017** | **97.0** | **96.0** | **95.1** | **95.0** | **95.9** | **91.7** | **96.0** | **94.1** | **90.1** |
| **Disgyblion:** | | | | | | | | | |
| 2013 | 88.5 | 88.1 | 84.6 | 84.8 | 89.0 | 78.1 | 87.2 | 86.1 | 73.3 |
| 2014 | 91.0 | 90.8 | 87.7 | 87.5 | 91.2 | 82.2 | 90.4 | 89.4 | 77.8 |
| 2015 | 92.0 | 92.1 | 89.9 | 89.6 | 92.7 | 84.1 | 91.6 | 91.4 | 81.2 |
| 2016 | 93.3 | 93.2 | 91.1 | 91.1 | 93.3 | 85.6 | 92.9 | 92.6 | 81.9 |
| **2017** | **93.6** | **93.3** | **92.0** | **91.9** | **93.9** | **86.7** | **93.3** | **93.3** | **83.8** |

## Siart 1: Canran y bechgyn, merched a disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig yng Nghyfnod Allweddol 3, 2017




- Yn 2017, roedd canran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig (Lefel 5 neu uwch) yn amrywio o 93.9 y cant mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) i 83.8 y cant mewn Cymraeg Ail Iaith.
- Ym mhob pwnc, cyrhaeddodd canran uwch o ferched na bechgyn y lefel ddisgwyliedig. Gwelwyd y bwlch mwyaf rhwng merched a bechgyn mewn Cymraeg Ail Iaith (12.0 pwynt canran) a'r bwlch lleiaf yn Addysg Gorfforol (1.7 pwynt canran).
- Ers 2016 gwelwyd cynnydd yng nghanran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig ym mhob pwnc. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yng Nghymraeg Ail Iaith (2.0 pwynt canran) a'r cynnydd lleiaf yn Dylunio a Thechnoleg (0.1 pwynt canran).
- Ar gyfartaledd, roedd canran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig yn y pynciau di-graidd yn 2017 0.8 pwynt canran yn uwch nag yn 2016. Mae cyfradd y cynnydd wedi disgyn dros y pum mlynedd diwethaf.

**Tabl 2: Canlyniadau asesiadau athrawon o bynciau di-graidd yng Nghyfnod Allweddol 3, fesul lefel, 2017 (a)**

Canran y bechgyn, merched a disgyblion a gyrhaeddodd bob lefel

| | | | NCO | Lefel | | | | | | | | | Lefel 5 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | D | N | 1,2 ac 3 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8+ | | neu'n uwch | Cohort |
| **Bechgyn:** | | | | | | | | | | | | | | |
| Celf a Dylunio | 0.5 | 0.7 | 0.4 | 0.3 | 0.6 | 1.2 | 5.9 | 43.4 | 37.2 | 9.2 | 0.6 | | 90.4 | 16,265 |
| Dylunio a Technoleg | 0.4 | 0.6 | 0.4 | 0.4 | 0.5 | 1.3 | 5.6 | 39.3 | 40.3 | 10.9 | 0.3 | | 90.7 | 16,265 |
| Daearyddiaeth | 0.4 | 0.8 | 0.4 | 0.4 | 0.7 | 1.4 | 6.9 | 34.3 | 36.8 | 16.4 | 1.5 | | 89.0 | 16,265 |
| Hanes | 0.4 | 0.8 | 0.4 | 0.4 | 0.8 | 1.3 | 6.9 | 34.2 | 37.6 | 15.9 | 1.3 | | 89.0 | 16,265 |
| TGCh | 0.4 | 0.6 | 0.4 | 0.3 | 0.5 | 1.3 | 4.5 | 31.2 | 42.3 | 17.9 | 0.6 | | 91.9 | 16,265 |
| Ieithoedd Tramor Modern | 2.5 | 1.4 | 0.4 | 0.7 | 0.9 | 2.6 | 9.5 | 36.2 | 33.3 | 12.0 | 0.5 | | 81.9 | 16,265 |
| Cerddoriaeth | 0.5 | 0.8 | 0.4 | 0.6 | 0.5 | 0.8 | 5.5 | 42.8 | 37.5 | 9.1 | 1.4 | | 90.8 | 16,265 |
| Addysg Gorfforol | 0.5 | 0.7 | 0.3 | 0.3 | 0.4 | 0.9 | 4.4 | 33.4 | 39.7 | 17.5 | 1.9 | | 92.5 | 16,265 |
| Cymraeg Ail Iaith | 2.0 | 1.5 | 0.5 | 0.9 | 1.0 | 3.9 | 12.1 | 40.2 | 29.0 | 8.5 | 0.4 | | 78.1 | 13,505 |
| **Merched:** | | | | | | | | | | | | | | |
| Celf a Dylunio | 0.2 | 0.3 | 0.3 | 0.2 | 0.2 | 0.3 | 1.5 | 18.5 | 41.6 | 32.3 | 4.6 | | 97.0 | 15,370 |
| Dylunio a Technoleg | 0.2 | 0.4 | 0.2 | 0.2 | 0.2 | 0.5 | 2.3 | 21.8 | 46.2 | 26.6 | 1.4 | | 96.0 | 15,370 |
| Daearyddiaeth | 0.2 | 0.4 | 0.2 | 0.2 | 0.3 | 0.6 | 3.0 | 24.7 | 39.7 | 27.1 | 3.5 | | 95.1 | 15,370 |
| Hanes | 0.2 | 0.4 | 0.3 | 0.2 | 0.3 | 0.7 | 3.0 | 23.3 | 40.2 | 28.5 | 3.0 | | 95.0 | 15,370 |
| TGCh | 0.2 | 0.4 | 0.2 | 0.2 | 0.3 | 0.5 | 2.4 | 22.9 | 45.6 | 26.6 | 0.8 | | 95.9 | 15,370 |
| Ieithoedd Tramor Modern | 1.0 | 0.7 | 0.2 | 0.2 | 0.3 | 1.2 | 4.6 | 26.1 | 40.2 | 24.4 | 1.0 | | 91.7 | 15,370 |
| Cerddoriaeth | 0.3 | 0.5 | 0.3 | 0.3 | 0.2 | 0.3 | 2.2 | 28.1 | 45.7 | 19.0 | 3.1 | | 96.0 | 15,370 |
| Addysg Gorfforol | 0.3 | 0.5 | 0.2 | 0.2 | 0.2 | 0.4 | 4.0 | 38.2 | 39.5 | 14.6 | 1.9 | | 94.1 | 15,370 |
| Cymraeg Ail Iaith | 0.9 | 0.8 | 0.3 | 0.4 | 0.3 | 1.6 | 5.7 | 30.2 | 37.7 | 21.0 | 1.2 | | 90.1 | 12,468 |
| **Disgyblion:** | | | | | | | | | | | | | | |
| Celf a Dylunio | 0.3 | 0.5 | 0.3 | 0.2 | 0.4 | 0.8 | 3.7 | 31.3 | 39.4 | 20.4 | 2.5 | | 93.6 | 31,635 |
| Dylunio a Technoleg | 0.3 | 0.5 | 0.3 | 0.3 | 0.4 | 0.9 | 4.0 | 30.8 | 43.1 | 18.5 | 0.8 | | 93.3 | 31,635 |
| Daearyddiaeth | 0.3 | 0.6 | 0.3 | 0.3 | 0.5 | 1.0 | 5.0 | 29.6 | 38.2 | 21.6 | 2.5 | | 92.0 | 31,635 |
| Hanes | 0.3 | 0.6 | 0.4 | 0.3 | 0.5 | 1.0 | 5.0 | 28.9 | 38.9 | 22.0 | 2.1 | | 91.9 | 31,635 |
| TGCh | 0.3 | 0.5 | 0.3 | 0.3 | 0.4 | 0.9 | 3.5 | 27.1 | 43.9 | 22.1 | 0.7 | | 93.9 | 31,635 |
| Ieithoedd Tramor Modern | 1.8 | 1.1 | 0.3 | 0.5 | 0.6 | 2.0 | 7.1 | 31.3 | 36.6 | 18.0 | 0.7 | | 86.7 | 31,635 |
| Cerddoriaeth | 0.4 | 0.7 | 0.4 | 0.5 | 0.3 | 0.6 | 3.9 | 35.7 | 41.5 | 13.9 | 2.2 | | 93.3 | 31,635 |
| Addysg Gorfforol | 0.4 | 0.6 | 0.3 | 0.3 | 0.3 | 0.7 | 4.2 | 35.7 | 39.6 | 16.1 | 1.9 | | 93.3 | 31,635 |
| Cymraeg Ail Iaith | 1.4 | 1.2 | 0.4 | 0.6 | 0.7 | 2.8 | 9.0 | 35.4 | 33.1 | 14.5 | 0.8 | | 83.8 | 25,973 |

(a) Mae D yn cynrychioli disgyblion sydd wedi'u datgymhwyso o dan adrannau 113 - 116 o Ddeddf Addysg 2002, neu ddisgyblion na allai athrawon ddarparu asesiad ar eu cyfer.
Mae N yn cynrychioli disgyblion na ddyfarnwyd lefel iddynt am resymau heblaw datgymhwyso.
O 2010 ymlaen cafodd lefel deilliant W (gweithio tuag at lefel 1) y Cwricwlwm Cenedlaethol ei dileu a'i disodli gan dri deilliant dilys newydd – Deilliannau 1, 2 a 3 y Cwricwlwm Cenedlaethol. Cyflwynwyd y lefelau newydd hyn i ddisgrifio'r cyflawniad islaw lefel 1.

- TGCh oedd y pwnc gyda'r canran uchaf o ddisgyblion yn cyflawni o leiaf Lefel 6 (un yn uwch na'r lefel disgwyliedig) yn 2017 (66.7 y cant). Ar gyfer bechgyn oedd y gyfradd uchaf hefyd yn TGCh (60.8 y cant) ac ar gyfer merched roedd y gyfradd uchaf yng Nghelf a Dylunio (78.5 y cant).

**Tabl 3: Canlyniadau asesiadau athrawon o bynciau di-graidd yng Nghyfnod Allweddol 3 fesul ALl, 2017**

Canran y disgyblion a gyrhaeddodd o leiaf Lefel 5 (y lefel ddisgwyliedig) mewn asesiadau athrawon

| | Celf a Dylunio | Dylunio a Technoleg | Daearyddiaeth | Hanes | TGCh | Ieithoedd Tramor Modern | Cerddoriaeth | Addysg Gorfforol | Cymraeg Ail Iaith |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 93.9 | 95.5 | 94.5 | 93.9 | 95.2 | 92.2 | 94.2 | 93.7 | 81.4 |
| Gwynedd | 97.3 | 97.3 | 95.5 | 95.6 | 97.3 | 91.6 | 96.6 | 97.0 | 83.3 |
| Conwy | 94.5 | 95.1 | 93.3 | 95.0 | 95.3 | 86.2 | 95.8 | 96.4 | 83.1 |
| Sir Ddinbych | 95.3 | 93.0 | 93.2 | 93.5 | 94.2 | 89.9 | 93.4 | 93.8 | 89.7 |
| Sir y Fflint | 96.5 | 96.5 | 94.7 | 94.6 | 93.9 | 88.6 | 95.2 | 94.5 | 87.9 |
| Wrecsam | 90.7 | 91.5 | 90.6 | 90.2 | 92.4 | 83.3 | 91.5 | 90.9 | 81.6 |
| Powys | 95.3 | 95.7 | 94.6 | 94.0 | 94.4 | 91.8 | 95.0 | 94.5 | 84.0 |
| Ceredigion | 96.3 | 97.6 | 96.2 | 96.4 | 96.6 | 90.9 | 95.9 | 96.6 | 76.5 |
| Sir Benfro | 91.7 | 92.2 | 92.2 | 93.6 | 95.0 | 87.3 | 92.3 | 93.6 | 82.7 |
| Sir Gaerfyrddin | 94.0 | 93.3 | 93.0 | 92.5 | 94.6 | 88.0 | 94.3 | 94.4 | 78.4 |
| Abertawe | 93.5 | 93.9 | 92.1 | 92.1 | 94.5 | 85.5 | 93.5 | 92.2 | 85.7 |
| Castell-nedd Port Talbot | 90.3 | 88.3 | 84.7 | 82.4 | 92.7 | 81.8 | 87.1 | 88.4 | 75.9 |
| Pen-y-Bont ar Ogwr | 96.6 | 94.1 | 95.7 | 95.0 | 95.3 | 86.4 | 95.8 | 94.4 | 87.7 |
| Bro Morgannwg | 94.8 | 95.9 | 95.2 | 95.1 | 97.1 | 91.9 | 96.7 | 96.5 | 88.0 |
| Rhondda Cynon Taf | 93.8 | 93.2 | 90.5 | 90.3 | 94.5 | 87.7 | 94.0 | 91.8 | 84.8 |
| Merthyr Tudful | 94.3 | 92.4 | 91.6 | 92.8 | 93.3 | 88.8 | 92.6 | 88.5 | 86.2 |
| Caerffili | 90.7 | 91.6 | 90.4 | 90.5 | 91.1 | 83.2 | 89.5 | 90.8 | 83.4 |
| Blaenau Gwent | 93.3 | 91.1 | 88.0 | 86.2 | 93.6 | 76.1 | 88.2 | 91.1 | 79.6 |
| Torfaen | 90.8 | 94.4 | 92.6 | 93.4 | 93.1 | 88.3 | 93.9 | 92.2 | 86.1 |
| Sir Fynwy | 96.5 | 95.8 | 94.8 | 94.2 | 94.9 | 92.8 | 96.1 | 95.6 | 88.8 |
| Casnewydd | 93.7 | 95.0 | 91.7 | 90.8 | 95.2 | 86.6 | 93.3 | 95.9 | 83.4 |
| Caerdydd | 92.2 | 89.8 | 89.5 | 90.4 | 90.1 | 82.2 | 92.0 | 92.9 | 83.4 |
| **Cymru** | **93.6** | **93.3** | **92.0** | **91.9** | **93.9** | **86.7** | **93.3** | **93.3** | **83.8** |
| 2016 | 93.3 | 93.2 | 91.1 | 91.1 | 93.3 | 85.6 | 92.9 | 92.6 | 81.9 |
| 2015 | 92.0 | 92.1 | 89.9 | 89.6 | 92.7 | 84.1 | 91.6 | 91.4 | 81.2 |
| 2014 | 91.0 | 90.8 | 87.7 | 87.5 | 91.2 | 82.2 | 90.4 | 89.4 | 77.8 |
| 2013 | 88.5 | 88.1 | 84.6 | 84.8 | 89.0 | 78.1 | 87.2 | 86.1 | 73.3 |

- Roedd canran y disgyblion a gyflawnodd o leiaf y lefel ddisgwyliedig yn amrywio’n fawr rhwng yr awdurdodau lleol ar draws yr holl bynciau. Gwelwyd yr ystod fwyaf o ganlyniadau yn Ieithoedd Tramor Modern yn 2017, 92.8 y cant yn Sir Fynwy o’i gymharu â 76.1 y cant ym Mlaenau Gwent.
- Yng Ngwynedd oedd y canran uchaf o ddisgyblion a gyflawnodd y lefel disgwyliedig yng Nghelf a Dylunio ac Addysg Gorfforol yn 2017.
- Yng Ngheredigion oedd y canran uchaf o ddisgyblion a gyflawnodd y lefel disgwyliedig yn Dylunio a Thechnoleg, Daearyddiaeth a Hanes 2017.
- Sir Dinbych oedd gyda’r canran uchaf o ddisgyblion a gyflawnodd y lefel disgwyliedig yng Nghymraeg Ail Iaith, Bro Morgannwg oedd gyda’r canran uchaf yng Ngherddoriaeth a Sir Fynwy oedd a’r canran uchaf yn Ieithoedd Tramor Modern yn 2017.

## Adran 2 – Cyfnod Allweddol 2

Mae'n ddewisol i ysgolion ddarparu manylion asesiadau athrawon mewn Cymraeg Ail Iaith i Lywodraeth Cymru. Yn 2017, cafodd 26,182 o ddisgyblion o gohort cymwys o 26,517 (98.7 y cant) eu hasesu mewn Cymraeg Ail Iaith. Y cohort cymwys yw'r rheiny na chawsant asesiad athro mewn Cymraeg iaith gyntaf. Cymraeg Ail Iaith yw'r  unig bwnc di-graidd yr ydym yn casglu data ar gyfer yng Nghyfnod Allweddol 2.

**Tabl 4: Canlyniadau asesiadau athrawon o bynciau di-graidd yng Nghyfnod Allweddol 2, Cymraeg Ail Iaith, 2017 (a)**

Canran y bechgyn, merched a disgyblion a gyrhaeddodd bob lefel

| | | | NCO | Lefel | | | | | | Lefel 4 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | D | N | 1,2ac3 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6+ | neu'n uwch | Cohort |
| Bechgyn | 0.8 | 0.3 | 0.7 | 1.3 | 3.3 | 17.1 | 56.1 | 20.0 | 0.2 | 76.4 | 13,582 |
| Merched | 0.5 | 0.2 | 0.3 | 0.5 | 1.6 | 11.0 | 52.9 | 32.4 | 0.4 | 85.8 | 12,600 |
| Disgyblion | 0.7 | 0.2 | 0.5 | 1.0 | 2.5 | 14.2 | 54.5 | 26.0 | 0.3 | 80.9 | 26,182 |

(a) Cafodd data Cymraeg Ail Iaith yng Nghyfnod Allweddol 2 eu casglu am y tro cyntaf yn 2010. Mae adrodd y canlyniadau hyn yn ddewisol i ysgolion. I gael mwy o wybodaeth, gweler y nodiadau ar ddiwedd y datganiad hwn.

- Yn 2017, 80.9 y cant oedd canran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig (Lefel 4 neu uwch) mewn Cymraeg Ail Iaith. Roedd y canran ar gyfer marched 9.4 pwynt canran yn uwch na bechgyn.

**Tabl 5: Canlyniadau asesiadau athrawon o bynciau di-graidd yng Nghyfnod Allweddol 2 fesul ALl, Cymraeg Ail Iaith, 2013-2017 (a)**

Canran y disgyblion a gyrhaeddodd o leiaf Lefel 4 (y lefel ddisgwyliedig) mewn asesiadau athrawon

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 38.7 | 64.8 | 50.0 | 67.2 | 59.7 |
| Gwynedd (b) | * | * | * | 0.0 | 0.0 |
| Conwy | 70.2 | 77.7 | 78.2 | 75.7 | 77.8 |
| Sir Ddinbych | 69.7 | 74.0 | 76.4 | 77.1 | 81.0 |
| Sir y Fflint | 61.2 | 68.2 | 75.6 | 79.4 | 81.7 |
| Wrecsam | 78.5 | 77.8 | 82.6 | 80.3 | 87.2 |
| Powys | 70.9 | 73.4 | 82.7 | 81.8 | 86.7 |
| Ceredigion | 64.4 | 70.6 | 82.0 | 66.8 | 74.4 |
| Sir Benfro | 59.6 | 75.1 | 76.9 | 76.7 | 80.0 |
| Sir Gaerfyrddin | 61.1 | 67.7 | 66.3 | 67.4 | 73.7 |
| Abertawe | 67.1 | 68.5 | 73.4 | 74.7 | 77.0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 75.7 | 73.6 | 74.1 | 73.3 | 78.5 |
| Pen-y-Bont ar Ogwr | 60.6 | 63.5 | 71.6 | 76.7 | 77.1 |
| Bro Morgannwg | 71.6 | 77.8 | 79.4 | 80.7 | 84.2 |
| Rhondda Cynon Taf | 63.3 | 69.1 | 70.4 | 76.9 | 80.5 |
| Merthyr Tudful | 58.2 | 64.0 | 68.0 | 74.6 | 77.8 |
| Caerffili | 64.4 | 74.8 | 78.4 | 83.9 | 84.4 |
| Blaenau Gwent | 71.1 | 79.0 | 83.6 | 80.5 | 85.0 |
| Torfaen | 76.4 | 85.2 | 79.1 | 82.9 | 85.1 |
| Sir Fynwy | 75.0 | 82.8 | 85.5 | 87.5 | 88.4 |
| Casnewydd | 78.2 | 80.4 | 85.6 | 85.9 | 86.3 |
| Caerdydd | 67.4 | 73.7 | 74.4 | 76.0 | 80.0 |
| **Cymru** | **67.7** | **73.1** | **76.1** | **77.9** | **80.9** |

(a) Cafodd data Cymraeg Ail Iaith yng Nghyfnod Allweddol 2 eu casglu am y tro cyntaf yn 2010. Mae adrodd y canlyniadau hyn yn ddewisol i ysgolion. I gael mwy o wybodaeth, gweler y nodiadau ar ddiwedd y datganiad hwn.
(b) Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng Ngwynedd yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf ac felly bach iawn yw maint y cohort. Mae ffigurau wedi eu cuddio lle mae'r cohort o dan 5.

- Yn 2017 roedd y canran o ddisgyblion a gyflawnodd y lefel disgwyliedig (Lefel 4) neu uwch yng Nghymraeg Ail Iaith yn uchaf yn Sir Fynwy (88.4 y cant). Cynyddodd y gyfradd ym mhob awdurdod lleol heblaw am Sir Fôn a Gwynedd.

# Nodiadau

## 1. Y Cyd-destun

### 1.1 Polisi/gweithrediadol

Rhaid i bob un o'r dysgwyr sydd yn eu blwyddyn olaf yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 gael eu hasesu drwy asesiadau athrawon. Mae penaethiaid yn gyfrifol am adrodd canlyniadau'r holl ddysgwyr sydd ar eu cofrestr ar yr ail ddydd Mawrth ym mis Mai, sef y 'dyddiad penodol ar y gofrestr'. Yn 2017, 9 Mai oedd y dyddiad ar gyfer hyn.

Gellir gweld y trefniadau asesu statudol ar gyfer blwyddyn ysgol 2016/17.

Mae pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru wedi'u rhannu i ddau gategori, sef pynciau craidd a phynciau di-graidd.

Dyma'r pynciau craidd:

- Saesneg
- Cymraeg Iaith Gyntaf
- Mathemateg
- Gwyddoniaeth

Dyma'r pynciau di-graidd:

- Celf a Dylunio
- Dylunio a Thechnoleg
- Daearyddiaeth
- Hanes
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Ieithoedd Tramor Modern
- Cerddoriaeth
- Addysg Gorfforol
- Cymraeg Ail Iaith

### Rhaglen wirio allanol ar gyfer asesiadau athrawon

Ar 18 Mai 2015, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ddatganiad ar "Sicrhau dibynadwyedd a chysondeb o ran Asesiadau Athrawon yng Nghymru: Rhaglen Wirio Allanol". O 2016 ymlaen, mae posibilrwydd y bydd gwell trylwyredd mewn asesiadau athrawon yn arwain at effaith ar ddosbarthiad Lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a ddyfernir.

**Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru**

Ym mis Mawrth 2014 gofynnwyd i'r Athro Graham Donaldson gynnal adolygiad sylfaenol o'r trefniadau cwricwlwm ac asesu, o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4. Yn yr adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015, gwnaeth yr Athro Donaldson 68 o argymhellion amrywiol iawn i wella'r trefniadau cwricwlwm ac asesu yng Nghymru. Bydd yr adolygiad annibynnol hwn yn cael effaith arwyddocaol ar drefniadau asesu ac ar gyhoeddi ystadegau swyddogol.

Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru

### 1.2 Cyhoeddiadau cysylltiedig

Cafodd datganiad tebyg sy'n ymdrin â meysydd dysgu gorfodol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a phynciau craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, o'r enw "Deilliannau diwedd y cyfnod sylfaen ac asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol o'r pynciau craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3" ei gyhoeddi hefyd ar 9 Awst 2017.

I gael data ar lefel ysgol a mwy o wybodaeth ewch i Fy Ysgol Leol. Ceir toreth o ddata ar y safle, o wybodaeth gyd-destunol, megis data ar niferoedd a nodweddion disgyblion, i berfformiad ysgolion, presenoldeb a data ar staffio a chyllid.

Mae Lloegr yn cyhoeddi datganiadau ar wahân ar Gyfnodau Allweddol 1 a 2, er nad yw'n cyhoeddi datganiadau ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 mwyach. Yn natganiad Lloegr, cyhoeddir ffigurau ar asesiadau athrawon, yn ogystal ag arholiadau swyddogol (nad yw disgyblion yn eu sefyll mwyach yng Nghymru).

Mae tablau manylach, gan gynnwys data ar lefel ysgol, ar gael o wneud cais.

## 2. Ffynhonnell data

Casglu Data Cenedlaethol yw casglu data yn electronig ynghylch asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2 a 3. Caiff data eu hanfon gan ysgolion at y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddeg yn Llywodraeth Cymru dan ofal eu Hawdurdod Lleol.

Broses Casglu Data Cenedlaethol ar gyfer 2017 gan gynnwys amserlenni a threfniadau adrodd

## 3. Diffiniadau

### 3.1 Cwmpas

Bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn 11 oed ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 neu'n 14 oed ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. Mae'n bosibl y bydd rhai'n hŷn neu'n iau, ac mae'n bosibl y bydd rhai'n cael eu haddysgu mewn dosbarth lle mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr o oedran gwahanol. Ar gyfer pob Cyfnod Allweddol, rhaid i ddysgwyr gael asesiad statudol (h.y. rhaid iddynt gael asesiad athro ar ddiwedd y Cyfnod Allweddol) unwaith yn unig.

O 2010 ymlaen roedd ysgolion yn gallu darparu canlyniadau Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer Cymraeg Ail Iaith.

### 3.2 Lefelau disgwyliedig

Y disgwyliad cyffredinol yw y bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion 11 oed yn cyrraedd lefel 4 ym mhob pwnc. Yn yr un modd, bydd disgyblion 14 oed yn cyrraedd lefel 5.

Mae 'D' yn cynrychioli disgyblion sydd wedi'u datgymhwyso o dan adrannau 113 - 116 o Ddeddf Addysg 2002, neu ddisgyblion na allai athrawon ddarparu asesiad ar eu cyfer. Mae 'N' yn cynrychioli disgyblion na ddyfarnwyd lefel iddynt am resymau heblaw datgymhwyso.

Yn 2010 cafodd lefel deilliant 'W' (gweithio tuag at lefel 1) ei dileu a'i disodli gan dri deilliant dilys newydd ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 – Deilliannau 1, 2 a 3 y Cwricwlwm Cenedlaethol. Cyflwynwyd y lefelau newydd hyn i ddisgrifio cyflawniad islaw lefel 1. At ddibenion cyhoeddi, mae'r tri deilliant hyn wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd a'u henwi 'NCO 1, 2 a 3'.

Gellir cael mwy o wybodaeth am y lefelau ym mhob Cyfnod Allweddol (gan gynnwys codau 'D' ac 'N') trwy ddilyn y ddolen at y trefniadau asesu statudol yn adran 1.1.

## 4. Talgrynnu a symbolau

Mewn tablau lle mae ffigurau wedi cael eu talgrynnu i'r digid terfynol agosaf, mae'n bosibl y bydd anghysondeb ymddangosiadol rhwng swm yr eitemau unigol a'r cyfanswm a ddangosir.

Mae'r symbolau canlynol wedi cael eu defnyddio trwy'r cyhoeddiad hwn i gyd:

| | |
|---|---|
| - | canrannau sy'n llai na 0.05 ond nid yn sero |
| . | heb fod yn berthnasol |
| .. | heb fod ar gael |
| ~ | heb fod ar gael eto |
| * | mae'r ffigur yn llai na 5, neu wedi'i seilio ar ffigur sy'n llai na 5. |

## 5. Gwybodaeth allweddol am ansawdd

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r wybodaeth am yr allbwn hwn o dan bum agwedd ar ansawdd: Perthnasedd, Cywirdeb, Amseroldeb a Phrydlondeb, Hygyrchedd ac Eglurder, a Chymaroldeb. Mae hefyd yn ymdrin â materion penodol sy'n ymwneud ag ansawdd data 2017, ac yn disgrifio'r offeryn rheoli ansawdd a ddefnyddir yn y maes gwaith hwn.

### 5.1 Perthnasedd

Mae'r ystadegau'n cael eu defnyddio y tu mewn a'r tu allan i Lywodraeth Cymru i fonitro tueddiadau addysgol ac fel llinell sylfaen ar gyfer dadansoddi'r data sylfaenol ymhellach. Dyma rai o'r prif ddefnyddwyr:

- Ysgrifenyddion y Cabinet, Gweinidogion a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru
- Yr Adran Addysg a Sgiliau yn Llywodraeth Cymru;
- Adrannau llywodraethol eraill;
- Y gymuned ymchwil;
- Awdurdodau lleol ac ysgolion;
- Myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion;
- Dinasyddion unigol, cwmnïau preifat a'r cyfryngau.

Defnyddir yr ystadegau hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd. Dyma rai enghreifftiau:

- Cefndir cyffredinol ac ymchwil;
- I'w cynnwys mewn adroddiadau a dogfennau briffio;
- Cyngor i Weinidogion;
- Pecynnau data craidd addysg Cymru gyfan (a ddisodlodd Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion);
- Cymariaethau a meincnodau awdurdodau lleol ac ysgolion;
- I lywio'r broses benderfynu ym maes polisi addysg yng Nghymru gan gynnwys ad-drefnu ysgolion;
- I ddarparu gwybodaeth i Estyn yn ystod arolygiadau o ysgolion;
- Maes addysg ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
- I gynorthwyo â gwaith ymchwil i gyrhaeddiad addysgol.

### 5.2 Cywirdeb

Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gydag ysgolion ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod yr holl ddata'n cael eu dilysu cyn i dablau gael eu cyhoeddi. Os oes unrhyw anghysondebau yn y data o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, mae Llywodraeth Cymru'n herio ysgolion ac awdurdodau lleol ar yr anghysondebau hyn. Mae'r data terfynol yn cael eu cymeradwyo gan ysgolion ac awdurdodau lleol bob blwyddyn. Caiff data eu casglu ar ffurflen electronig a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru trwy DEWi, system ddiogel i drosglwyddo data ar lein a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae gwahanol gamau dilysu a gwirio synnwyr awtomatig yn rhan annatod o'r broses er mwyn sicrhau bod y data o ansawdd da.

### 5.3 Amseroldeb a phrydlondeb

Roedd DEWi ar gael i lanlwytho ffeiliau ar 9 Mai 2017, a gofynnwyd i ysgolion gyflwyno data ar gyfer yr holl ddisgyblion ar y gofrestr yn yr ysgol ar 9 Mai ar gyfer y Cyfnod Sylfaen / Cyfnodau Allweddol perthnasol a'r Profion Darllen Cenedlaethol. Wedyn gofynnwyd i ysgolion ac awdurdodau lleol ddilysu eu data yn y cyfnod dilysu, a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2017.

### 5.4 Hygyrchedd ac eglurder

Mae'r Datganiad Ystadegol Cyntaf hwn yn cael ei hysbysebu ymlaen llaw ac yna ei gyhoeddi ar yr adran Ystadegau o wefan Llywodraeth Cymru. Yn cyd-fynd ag ef mae tablau manylach ar StatsCymru, gwasanaeth y gellir ei ddefnyddio am ddim sy'n caniatáu i ymwelwyr weld, trin, creu a lawrlwytho data.

### 5.5 Cymaroldeb

Ni chyflwynodd unrhyw ysgolion annibynnol ddata Cyfnod Allweddol 2 neu 3 yn 2017. Cyflwynodd un ysgol annibynnol ddata Cyfnod Allweddol 2 yn 2012 – darparodd yr un ysgol annibynnol ganlyniadau yn 2009 a 2010 hefyd. Ni fydd data ysgolion annibynnol yn cael eu cynnwys mewn canlyniadau Awdurdodau Lleol. Ond fe fydd y data'n ymddangos yn y canlyniadau cyffredinol ar gyfer Cymru.

Mae data cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion sy'n cyrraedd o systemau addysg nad ydynt yng Nghymru neu Loegr yn ystod y ddwy flynedd academaidd flaenorol yn cael eu dileu o ganlyniadau'r ysgol a'r Awdurdod Lleol, ond eu cynnwys yn y canlyniadau cyffredinol ar gyfer Cymru.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 ac sy'n golygu eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu fod yr ystadegau swyddogol yn cwrdd â'r safonau uchaf o ddibynadwyaeth, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd o'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Ceir eu dyfarnu fel statws Ystadegau Gwladol yn dilyn asesiad gan fraich rheoli Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Mae'r Awdurdod yn ystyried os ydy'r ystadegau yn cwrdd â'r safonau uchaf o gydymffurfiad â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ychwanegu i benderfyniadau a dadlau cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw i gynnal cydymffurfiad â'r safonau a ddisgwylir o Ystadegau Gwladol. Os ydym yn pryderu os yw'r ystadegau yma yn dal i gwrdd â'r safonau priodol, byddwn yn trafod hyn yn brydlon gyda'r Awdurdod. Gall statws Ystadegau Gwladol gael ei diddymu ar unrhyw bryd pan mae'r safonau uchaf heb eu cynnal, a'i ddyfarnu unwaith eto pan mae'r safonau yn cael eu hadfer.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFG)

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol" sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Cafodd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol eu gosod ym Mawrth 2016

Gwybodaeth am ddangosyddion a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig – Sut mae mesur cynnydd cenedl? – Dangosyddion Cenedlaethol

Gwybodaeth bellach am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Mae rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen hon ar gael yn:
http://llyw.cymru/statistics-and-research/national-curriculum-teacher-assessments-non-core-subjects/?lang=cy

## Diweddariad nesaf

Fe fydd data ar gyfer 2018 yn cael ei gyhoeddi yn Awst 2018 (dros dro)

## Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch e-bost at ystadegau.ysgolion@llyw.cymru.

## Drwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.